# PAPURAU BUSNES

## DYDD MERCHER 21 GORFFENNAF 1999

## RHAN 1 – ADRAN A

## AGENDA

**Bydd y sesiwn yn dechrau am 2pm**

**Cwestiynau i Christine Gwyther, Ysgrifennydd dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig** (15 munud)

Ceir rhestr o gwestiynau llafar ar y Fewnrwyd (a Gwe'r Siambr)

**Cwestiynau i Rosemary Butler, Ysgrifennydd dros Addysg cyn 16 oed** (15 munud)

Ceir rhestr o'r cwestiynau llafar ar y Fewnrwyd (a Gwe'r Siambr)

**Gwelliannau i Reolau Sefydlog**

*Bod y Cynulliad gan weithredu o dan adran 46(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 yn cymeradwyo'r diwygiadau canlynol i reol sefydlog 6.35 a 6.36.*

*Yn y pennawd cyn rheol sefydlog 6.35, dylid hepgor "neu Gynigion".*

*Yn rheol sefydlog 6.35, dylid hepgor "neu gynnig".*

*Yn rheol sefydlog 6.36, dylid hepgor,*

*(1) "neu'n cyflwyno'r cynnig", a*

*(2) ", ac ni cheir cyflwyno gwelliant i'r cynnig hwnnw".*

*DS. Mae'r Pwyllgor Busnes yn unol â rheol sefydlog 26.1 wedi cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ynghylch gwelliannau arfaethedig i reol sefydlog 6.35 a 6.36 (yr adroddiad a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Gorffennaf 1999).)*

[DS. Bydd yr eitem hon yn gofyn am fwyafrif o 2/3 o'r rhai sy'n pleidleisio i gael ei gymeradwyo]

**Rheoliadau Addysg**

(i) *Bod y Cynulliad, gan weithredu yn unol â rheol sefydlog 22.33 yn cymeradwyo'r drafft o Reoliadau Addysg (Llywodraeth Ysgol) (Cymru) 1999 y mae copi ohono wedi'i osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar ddydd Gwener 16 Gorffennaf 1999.*

(ii) *Bod y Cynulliad, gan weithredu yn unol â rheol sefydlog 22.33 yn cymeradwyo'r drafft o Reoliadau Addysg (Ysgolion Newydd) (Cymru) 1999 y mae copi ohono wedi'i osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar ddydd Gwener 16 Gorffennaf 1999.*

**Dadl: Y Sector Gwirfoddol**

Bod y Cynulliad yn:

*Cydnabod ac yn parchu cyfraniad hanfodol y Sector Gwirfoddol a gwirfoddoli at anghenion cymunedau a'r bywyd cymdeithasol ac economaidd ehangach yng Nghymru;*

*Cadarnhau gwerthoedd, egwyddorion ac ymrwymiadau'r Compact rhwng y Llywodraeth a'r Sector Gwirfoddol yng Nghymru y mae copïau wedi eu dosbarthu ymhlith Aelodau'r Cynulliad, ac yn cytuno i'w gweithredu nes bod Cynllun y Sector Gwirfoddol yn cael ei wneud;*

*Cytuno y dylai'r gwerthoedd a'r egwyddorion yn y Compact fod yn sail i Gynllun y Sector Gwirfoddol;*

*Ceisio hybu partneriaeth real rhwng y Sector Gwirfoddol a'r Cynulliad a'i bwyllgorau; a*

*Nodi y bydd 11 o Aelodau'r Cynulliad yn cael eu henwebu i gwrdd â chynrychiolwyr o'r Sector Gwirfoddol i fynd â thrafodaethau rhagddynt ynghylch y Cynllun.*

Mae'r gwelliannau canlynol wedi'u dewis:

**Helen Mary Jones**

**Diwygiad 1**

Ar ôl:

*"Cytuno y dylai'r gwerthoedd a'r egwyddorion yn y Compact fod yn sail i Gynllun y Sector Gwirfoddol", ychwaneger paragraff newydd:*

*"nodi yn arbennig gyfraniad gwirfoddolwragedd a mudiadau gwirfoddol menywod a mudiadau gwirfoddol pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ac yn croesawu'r gydnabyddiaeth yn y Compact am yr angen am sicrhau bod y Cynllun yn ystyried barn ac anghenion y grwpiau hyn", ac ychwaneger paragraff newydd arall:*

*"pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod y cynllun yn rhoi clust i farn mudiadau gwirfoddol bychain a gwirfoddolwyr yn eu broydd a'i fod hefyd yn diwallu eu hanghenion.",*

***Diwygiad 2:*** ym mharagraff 4 ychwaneger*;*

*"yn gyfan" ar ôl y geiriau "y Sector Gwirfoddol".*

**Kirsty Williams**

Dileer y paragraff diwethaf ac ychwaneger:

*"Ac yn sefydlu Fforwm Sector Gwirfoddol ffurfiol a pharhaol gydag 11 o Aelodau enwebedig o'r Cynulliad a chynrychiolwyr o'r sector gwirfoddol yn aelodau ohono i fynd â'r cynllun yn ei flaen."*

***Daw'r sesiwn hon i ben am 5.30pm***

*******************

**Bydd y Cynulliad yn torri o 26 Gorffennaf i 10 medi**

*******************

**Cynhelir y Sesiwn Lawn nesaf am 2.00pm ddydd mawrth, 14 Medi 1999**

**J W LLOYD**

**Clerc y Cynulliad**